COFNODION Cyfarfod Cyffredin Cyngor Cymuned Llandybïe, a gynhaliwyd yn y Pafiliwn, Llandybïe, ac arlein trwy gyfrwng Teams, ar ddydd Mercher, Chwefror 25ain, 2026 am 6.30 yh.

Presennol			
Cynghorwyr	Cyng A. J. Evans	Cyng R. Barnes	Cyng J. Tandy
	Cyng D. W. Hopkins	Cyng G. J. Davies	Cyng N. C. Davies
	Cyng E. W. Nicholas	Cyng C. R. Thomas	Cyng H. Davies
	Cyng S. Roberts		
Yn mynychu arlein	Cyng K. D. L. Davie	Cyng A. L. Thomas	Cyng A. W. Jones
	Cyng L. Jones		
Ymddiheuriadau am absenoldeb	Cyng D. Thomas	Cyng P. H. Roberts	Cyng L. Wilkins
	Cyng E. J. Davies	Cyng R.A. Davies	
Absennol	Neb		
Cofnodwr:	S. Taylor		
Clerc:	D. S. Nicholas		

899.

Derbyn ymddiheuriadau am absenoldeb.

Derbyniwyd pump ymddiheuriad am absenoldeb; y Cyng P. H. Roberts, y Cyng R. A. Davies, y Cyng L. Wilkins, y Cyng E. J. Davies, y Cyng D. Thomas.

900.

DATGANIADAU O FUDDIANT.

Derbyniwyd un datganiad o fuddiant; roedd y Cyng R. Barnes unwaith yn rhagor wedi datgan buddiant mewn dwy eitem yn Adroddiad y Clerk, un ynghylch Clwb Pêl-droed Ieuenctid Caerbryn ac un ynghylch y cytundeb prydles gyda Ieuenctid Saron.

901.

COFNODION

Rhoddwyd ystyriaeth i Gofnodion y cyfarfodydd canlynol fel y'u dosbarthwyd hwy:

- Cofnodion y Cyfarfod Cyffredin, a gynhaliwyd ar Ionawr 21ain, 2026

Cynigiwyd bod y Cofnodion yn gywir gan y Cyng C. R. Thomas ac eiliwyd y cynnig gan y Cyng S. Roberts.

_____

Cadeirydd

- Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio, a gynhaliwyd ar Chwefror 11eg, 2026

Cynigiwyd bod y Cofnodion yn gywir gan y Cyng C. R. Thomas ac eiliwyd y cynnig gan y Cyng D. W. Hopkins.

Derbyn y cofnodion:

Gofynnodd y Cadeirydd am gynnig i dderbyn yr holl gofnodion, a Chynigiwyd hynny gan y Cyng R. Barnes ac Eiliwyd y cynnig gan y Cyng N. C. Davies.

902.

Materion yn Codi o'r Cofnodion

Materion yn Codi o'r Cyfarfod Cyffredin, a gynhaliwyd ar Chwefror 11eg, 2026

Roedd y Clerc wedi hysbysu'r aelodau bod yr holl wybodaeth wedi'i dderbyn oddiwrth y clybiau a'r grwpiau sy'n derbyn cymorth ariannol ag eithrio un, a oedd wedi addo cyflwyno'r wybodaeth angenrheidiol erbyn dydd Gwener, Chwefror 27ain, 2026.

903.

CYFRANOGIAD Y CYHOEDD

Nid oedd unrhyw gyfranogiad.

904.

GOHEBIAETH

(i)

Adroddiad yr Heddlu ar Ionawr 1af, 2026

Ardal Llandybïe	
Trais Troseddol a Rhywiol	11
Difrod Troseddol a Llosgi Bwriadol	**2**
Bwrgleriaeth	**1**
Cyffuriau	**1**

Penygroes gan gynnwys y Blaenau a Chaerbryn	
Trais Troseddol a Rhywiol	**4**

_____

Cadeirydd

Trosedd Arall	**1**
Y Drefn Gyhoeddus	**3**
Difrod Troseddol a Llosgi Bwriadol	**3**

Saron a Chapel Hendre	
Trais Troseddol a Rhywiol	8
Difrod Troseddol a Llosgi Bwriadol	3
Ymddygiad Gwrth-Gymdeithasol	2
Y Drefn Gyhoeddus	2

Er gwybodaeth i'r aelodau a'r cyhoedd, mae ffigyrau Trosedd Ardal Cymuned Llandybïe ar gael drwy ddefnyddio'r ddolen isod. Roedd y Clerc wedi argymell bod yr aelodau yn astudio map trosedd eu hardal, gan ei fod yn cynnig peth manylion ynghylch y ffigyrau trosedd drwy chwilio'r adran 'yn fy ardal i'.

Llandybie | Police.uk (www.police.uk)

(ii) Diweddariad ynghylch Gilfach Iago

Roedd y Clerc wedi cadarnhau nad oedd wedi derbyn unrhyw ddiweddariad.

Penderfynwyd nodi ymateb y Clerc ac aros am ymateb pellach.

905.

Adroddiad y Clerc, 18/02/26

At: Gadeirydd ac Aelodau'r Cyngor.

(a) Parciau.

(i) Saron a Chapel Hendre 106. Yn dal ar y restr i'w ddilyn i fyny gyda Chyngor Sir Caerfyrddin

· Arian Adran 106 ar gyfer Parc Saron - £37,226

· Arian Adran 106 ar gyfer Dôl Y Derwen £25,000 (y taliad cyntaf o dri)

(b) Llwybrau Troed. Eitemau sy'n weddill.

51/23 Cwmfferws: Y llwybr ceffylau sy'n gysylltiedig â'r llwybr troed; ni chaniateir marchogaeth. Mae'r Clerc wedi gofyn i Dîm y Cyngor Sir i archwilio codi arwyddion i rybuddio marchogion.

_____

Cadeirydd

Diweddariad: Mae'r Clerc yn dal i fonitro'r sefyllfa.

51/17 Capel Hendre: Llwybr troed wedi'i orchuddio gan dyfiant – bydd y contractwr yn ei glirio o fis Ebrill, fel rhan o dorriad cyntaf y tymor.

Diweddariad: Roedd y Clerc, yng nghwmni'r contractwr, wedi ceisio cerdded ar hyd y llwybr troed o'r ddau ben, ond heb lwyddiant. Roedd Tîm Hawliau Tramwy Cyhoeddus Sir Gaerfyrddin wedi gofyn ein bod yn gadael y gwaith am y tro nes eu bod wedi arolygu'r llwybr er mwyn mapio cwrs newydd i'r llwybr, wedi i'r tir lithro i ffwrdd, a gwneud y llwybr troed yn amhosib i'w gerdded.

51/23 Cwmfferws i Saron: Eitem sy'n disgwyl sylw, ac a nodwyd gan y Cyng N. C. Davies; bydd y Clerc yn darganfod pwy yw'r perchennog ac yn trefnu cyfarfod gyda nhw i drafod atgyweirio'r ffens sy'n edrych dros yr afon.

Diweddariad: Mae'r Clerc wedi ysgrifennu at y tirfeddianwr.

51/67D/1 Mynediad i'r Hawl Tramwy Cyhoeddus ym Mharc Pencae: Bydd naddion cerrig yn cael eu gosod yma.

Pump ymholiad ynghylch llwybrau troed o gwmpas Wern Ddu ac Heol Ddu: Mae'r Cyngor Sir wedi gwysio'r tirfeddiannwyr priodol i ddatblocio a chlirio rhwystrau di-angen; byd y Clerc yn monitro'r cynnydd.

51/77 Pentregwenlais, Llandybïe, erbyn hyn mae'r llwybr troed hwn wedi'i ail-agor gan Dîm Hawliau Tramwy Cyhoeddus Sir Gaerfyrddin.

Materion nad ydynt yn ymwneud â Hawliau Tramwy Cyhoeddus.
Tir a chlawdd ym Monllwyn**:** Mae na dir ym Monllwyn ar Heol Aberlash sydd wedi, yn draddodiadol, gael ei glirio, a chlawdd wedi'i dorri, gan y Cyngor Cymuned.

Diweddariad: Anfonwyd lythyr at y tirfeddianwr, Mr Finton McDonald, a oedd wedi ymateb yn bositif, ac roedd y Clerc wedi cwrdd ag ef, yng nghwmni preswylydd arall, ar y safle ar ddydd Iau, Chwefror 12fed; roedd Mr McDonald, a oedd yn bresennol yng nghwmni ei frawd, wedi cytuno torri'r clawdd unwaith y flwyddyn a chynnal y gordyfiant ar y tir y tu ôl i'r clawdd, a hynny yn ôl y galw. Wedi i Mr McDonald ddatgan diddordeb mewn defnyddio contractwr lleol, roedd y Clerc wedi trosglwyddo manylion y contractwr lleol sydd wedi, yn draddodiadol, gwneud y gwaith.

(c) Prosiect Parc Banc Y Ddraenen.

Mae Coed Lleol a Chyngor Sir Caerfyrddin wedi dechrau 6 diwrnod o Weithgaredd Cymunedol i weithio ar yr Ardal Warchodfa Natur; mae tri diwrnod o waith eisoes wedi'u cwblhau ar ddydd Sul, Chwefror 6ed, dydd Llun y 16eg a dydd Gwener yr 20fed, ac mae tri diwrnod arall wedi'u cynllunio.

(ch) System Wresogi yn y Pafiliwn Bowls a Thenis a grantiau eraill ar gyfer datrysiadau ynni mwy gwyrdd.

Mae'r Clerc wedi cwrdd â Duncan Edwards, Hyrwyddwr Ynni o'r Egin, yn y Pafiliwn a disgwylir adroddiad ffurfiol, sy'n ofynnol os am ymwneud â phroses ceisio am grant oddiwrth Llywodraeth Cymru, oddiwrtho o fewn 5 wythnos. Bydd yr adroddiad yn cynnwys argymhellion o ran gwresogi a goleuo'r Pafiliwn, ac hefyd yn cyfeirio at lifoleuadau. Mae wedi'i gadarnhau ein bod yn gymwys i wneud cais am £15,000 o arian.

Mae Egin hefyd wedi cynghori'r Clerc ein bod yn gymwys i wneud cais am grant arall gwerth £25,000, ac mae'r Clerc yn y broses o ystyried cais i'r gronfa hon.

(d) Cronfa Fferm Wynt y Betws o Ebrill 2026.

Mae'r Clerc wrthi'n paratoi ceisiadau am brosiectau a gynhwyswyd yn ein gwariant cyllideb ased ar gyfer mentrau a arweinir gan y gymuned, a bydd yn dod â rhestr gerbron Cyfarfod Cyffredin mis Mawrth. Byddai'n croesawu trafodaeth ynghylch 'prosiectau eraill' oherwydd bydd arian wrth gefn ar gael o ganlyniad i'r ffaith bod cyllideb o tua £30,00 cyn TAW a glustnodwyd, wedi'i gaffael o gyllideb 2026-27 i dalu cost y Ceblffordd/Gwifren Sip ym Mharciau Penygroes a'r Blaenau.

(dd) Uwchraddio'r Parciau: Yn amodol ar gadarnhad, bydd rhain yn cael eu talu o'r arian Adran 106 gwerth £37,226 tuag at gost y tri prosiect.

Prosiect Gwifren Sip Parc Penygroes

Bydd y prosiect wedi'i gwblhau erbyn diwedd mis Chwefror a bydd yr holl gost, sef £18,443 cyn TAW, yn cael ei hawlio yn y flwyddyn ariannol hon.

Diweddariad:

Roedd y Cyng N. C. Davies wedi gofyn bod arwyddion Baeddu gan Gŵn mwy gweladwy yn cael eu gosod yn y parc; roedd y Clerc wedi nodi hyn gan ddweud y byddai'n trefnu bod hyn yn cael ei wneud, ac hefyd ei fod wedi gofyn i'r Contractwr Teledu Cylch Cyfyng i newid ongl camera fel ei fod yn anelu tuag at man lle y mae Baeddu gan Gŵn yn digwydd yn gyson.

Prosiectau Gwifren Sip ym Mharc y Blaenau a Pharc Penygroes

Mae'r Cyngor wedi cadarnhau cymwysedd Saron a'r Blaenau i dderbyn arian Adran 106 o'r un ffynhonnell; bydd y ddau brosiect yn dechrau ar ddiwedd mis Mawrth am gost o tua £14,000 a TAW a £12,000 a TAW, yn y drefn honno.

(e) Diweddariad ynghylch symud y Siambr a'r swyddfa:

- Cloeon mewnol ac allanol wedi'u eu gosod ar y drws ffrynt, ynghyd â'r system larwm.

- Bwrdd y Cadeiryddion hefyd wedi'i osod yn ei le.

- Bydd y gwaith o baentio toiledau'r dynion a'r merched yn cael ei wneud cyn diwedd mis Mawrth.

- Bydd hysbysfwrdd, at ddefnydd y Clybiau Bowlio a Thenis a'r Cyngor Cymuned, yn cael ei osod ar flaen yr adeilad yn ystod mis Chwefror.

(f) Diweddariad ynghylch y brydles i Glwb Pêl-droed Ieuenctid Saron

Ar hyn o bryd, mae'r Clwb yn paratoi cytundeb y gallwn ni ei ystyried unwaith bod y Clerc wedi derbyn cyngor gan ein cyfreithwyr, CCW Law, er mwyn gwirio manylion y cynnig.

(ff) Llifogydd yn ardal Parc Saron.

Mae'r Clerc wedi derbyn nifer o gwynion ynghylch gerddi sydd wedi dioddef llifogydd ar y lôn ger Cae Pêl-Droed Ieuenctid Saron, ac ym mis Ionawr, roedd y Clerc wedi cysylltu â chwmni Siddels Environmental Services i glirio draeniau a oedd wedi'u blocio; roedd y weithred hon ond wedi dangos taw symp a cheuffos ar waelod y lôn a'r cae pêl-droed, sydd wedi'i brydlesi i ni, yw'r broblem. Cost y gwaith yma oedd £174.00.

Roedd y Clerc wedi llogi Siddells unwaith eto ar Chwefror 18fed i glirio'r symp a'r draeniad, am bris o £300.00; bryd hynny gwelwyd bod ceuffos ar waelod y cae pêl-droed yn atal dŵr rhag draenio i ffwrdd. Ar hyn o bryd mae'r Clerc yn archwilio'r gost o glirio'r geuffos.

Biniau Baw Ci yng Nghwmfferws, a Baeddu gan Gŵn ym Mharc Saron

- Roedd y Clerc wedi cwrdd â Thîm Gwaith Tir Cyngor Sir Caerfyrddin, sy'n delio â dyfynbrisiau parciau, i drafod gwacau'r biniau ymhob pen o Saron a Chwmfferws yn fwy cyson, a deall os oedd modd darparu dau fin ychwanegol. Erbyn hyn mae'r Clerc yn trefnu bod y biniau'n cael eu gosod yn eu lle**.**

Diweddariad:

Roedd y Cyng C. R. Thomas wedi gofyn bod y Clerc yn mynd ar ôl y Cyngor Sir, a gofyn am ddyddiad penodol; roedd wedi cytuno gwneud hyn.

- Mae'r Clerc wedi derbyn cwynion ynghylch baeddu gan gŵn mewn un lleoliad penodol ym Mharc Saron, ac wedi cyfarwyddo Gweithredwyr y Teledu Cylch Cyfyng i ail-alinio ongl un o'r cameráu, fel bod modd goruchwylio'r ardal hon; dylai hyn gael ei wneud cyn diwedd mis Chwefror.

Cadeirydd

(g) Toiledau Penygroes a Llandybïe: diweddariad a fandaliaeth

Cofnodwyd dau achos o fandaliaeth, y cyntaf yn nhoiledau'r Merched, ac yna yn nhoiledau'r Dynion. Mae'r difrod wedi'i drwsio, am bris o dros £800, ac mae'r Clerc wedi cynhyrchu dau rhif trosedd ac wedi cwrdd â'r Heddlu ym Mhenygroes. Mae'r gost yn rhy isel i gyfiawnhau hawlio yswiriant ac, o ystyried bod cyllideb ar gael i uwchraddio'r toiledau o fis Ebrill, i gynnwys gosod drysau newydd ac eitemau eraill, mae'r gost wedi'i dalu fel mesur brys, gan nad oedd unrhyw gloeon yn weithredol i reoli mynediad.

Erbyn hyn mae gan y Clerc yr opsiwn o ddefnyddio camera symudol oddiar y safle sy'n gallu monitro'r ardal ac, fel datrysiad hir-dymor, wedi gofyn am ddyfynbrisiau am osod camera parhaol.
Bydd y Clerc yn cwrdd â'r Heddlu unwaith eto ar ddydd Iau, Chwefror 19eg, a bydd yn adrodd yn ôl ynghylch cynnydd yn y cyfarfod nesaf.

Diweddariad:
Bu trafodaeth ynghylch ansawdd y drysau a osodwyd ac eglurodd y Clerc ei fod wedi gosod drysau tebyg i'r rhai a ddifrodwyd; gofynnwyd ei fod yn ystyried gosod drysau dur yn y dyfodol.

(ng) Noson cyflwyno grantiau.

Roedd y Clerc wedi awgrymu cynnal y digwyddiad ar ddydd Gwener, Mawrth 20fed, ym Mhafiliwn Llandybïe, a bydd bwffé yn cael ei ddarparu.

Diweddariad:
Cytunwyd cynnal y noson ar nos Sadwrn, Mawrth 21ain.

(h) Cylchlythyr Chwarterol.

Bydd y Clerc yn llunio'r cylchlythyr yn ystod mis Mawrth, gan gynnwys Prosiect Gwifren Sip Saron, diweddariadau ynghylch yr Hawliau Tramwy Cyhoeddus a digwyddiadau Banc y Ddraenen, a byddwn yn hapus i ystyried unrhyw storïau eraill sydd gan y Cynghorwyr y maent yn awyddus i'w cynnwys.

(i) Hysbysiad ynghylch cynyddu'r terfyn cyflymdra yn Heol Llandeilo, Llandybïe.

Mae'r Clerc wedi dosbarthu, i aelodau Cyngor Cymuned Ward Llandybïe, hysbysiad a dderbyniwyd o'r Asiantaeth Cefnffyrdd o'i bwriad i gynyddu'r terfyn cyflymdra o 20mya i 30 mya rhwng yr Hen Ficerdy ar Heol Llandeilo, a dechrau'r Ystâd Ddiwydiannol yng Nghilyrychen.

Diweddariad:

Dywedodd y Clerc ei fod wedi dosbarthu'r ebost oddiwrth yr Asiantaeth Cefnffyrdd ac am gynnal trafodaeth ynghylch ymateb; roedd yr holl aelodau yn gytun bod cadw'r terfyn cyflymdra i 20 mya tan tipyn o ffordd wedi'r gyrchfan i'r ysgol, ac yna'n cyflymu hyd at 30 mya, yn benderfyniad sy'n dangos synnwyr cyffredin.

Penderfynwyd bod y Clerc yn ymateb yn unol â hynny.

Dai Nicholas – Clerc
Chwefror 18fed, 2026

Penderfynwyd derbyn adroddiad y Clerc, ynghyd â'r penderfyniadau a gynhwyswyd ynddo.

906. Materion Ariannol

Adroddiad Ariannol ar Chwefror 16eg, 2026

INCWM

PENNAWD	CYLLIDEB	INCWM GWIRIONEDDOL	GWAHANIAETH
Praesept	193860.00	193860.00	**0.00**
Ffurflen TAW (ad-daliad	24000.00	16118.40	**-7881.60**
Gweinyddu	3000.00	10975.73	**7975.73**
Llog Banc	4300.00	5385.70	**1085.70**
Cytundebau Llogi/Grantiau/Adran 106	20000.00	23050.00	**3050.00**
Cyfanswm	245160.00	249389.83	**4229.83**

GWARIANT

PENNAWD	CYLLIDEB	GWARIANT GWIRIONEDDOL	GWAHANIAETH
Torri'r Glaswellt	£31,500.00	£27,447.76	**£4,052.24**
Cyflogau'r Staff a PAYE	£57,252.00	£62,385.41	**-£5,133.41**
Gwasanaethau Swyddfa	£7,500.00	£9,154.05	**-£1,654.05**
Yswiriant	£3,240.00	£3,295.22	**-£55.22**
Grantiau Ariannol (Mannau Agored, Neuaddau, Mynwentydd)	£20,000.00	£11,299.00	**£8,701.00**

Cadeirydd

Cynnal a Chadw Asedau (Cyfleusterau cyhoeddus, adeiladau, hawliau tramwy cyhoeddus, claddfeydd)	£47,495.00	£73,040.86	**-£25,545.86**
Gwasanaethau a Thanysgrifau	£6,050.00	£5,446.70	**£603.30**
Lwfanasau'r aelodau a PAYE	£14,000.00	£1,216.00	**£12,784.00**
Costau Etholiad	£8,000.00	£7,011.27	**£988.73**
Adran 137	£20,000.00	£4,475.00	**£15,525.00**
Goleuo	£4,000.00	£6,207.42	**£292.58**
Datblygu Cymunedol	£61,000.00	£62,951.14	**-£1,951.14**
Cyfanswm	£280,037.00	£273,929.83	**-£6,107.17**

Taliadau Ionawr, hyd at Chwefror 18fed, 2026

23/01/2026	YPG, Cyfleusterau Cyhoeddus Penygroes, anfoneb 1219089	39.19
23/01/2026	Cyllid y Wlad, taliad Tach/Rhag/Ion 2025/26	6223.82
27/01/2026	Morgan a Morgan, cymorth technegol, anfoneb 101372	270.00
27/01/2026	BT, Ffôn Cwmwl, taliad misol, M041 AG	59.94
27/01/2026	Connor Thomas, Cloeon mewnol ac allanol, anfoneb 191	239.06
27/01/2026	Mike Voyle Electric, Ieuenctid Saron, nam trydanol, anfoneb 283	84.00
27/01/2026	Martin Davies, gwasanaeth cyfieithu, Tach x 3 cyfarfod	354.12
27/01/2026	JJ Property Serv, atgyweirio toiledau Penygroes a Llandybïe	1520.98
27/01/2026	KD Gardening Services, Ionawr, glanhau'r toiledau, anfoneb 252	891.25
27/01/2026	Martin Davies, cyfieithu cofnodion Mannau Gwyrdd, Ionawr	67.08
05/02/2026	Martin Davies, cyfieithu cofnodion Cyfarfod Cyffredin Ionawr	183.75
05/02/2026	Morgan a Morgan, Band Llydan a Ffeibr misol, anfoneb 102906	96.00
05/02/2026	Dynevor Tree Serv, clirio coeden wedi cwympo yng Nghapel Hendre, anfoneb 18.01.2026	180.00
05/02/2026	Plexus Services, taliad blynyddol Meddalwedd Llwybredd Teledu Cylch Cyfyng Saron	422.28
05/02/2026	J & D Water Consultants, Asesiad Risg Chwarterol Saron	540.00
05/02/2026	J & D Water Consultants, Asesiad Risg Pafiliwn Llandybïe, anfoneb 017585	435.00

Cadeirydd

05/02/2026	Dyfed Alarms, system larwm ym Mhafiliwn Llandybïe, anfoneb 182320	1806.00
05/02/2026	Swyddfa'r Cabinet, sganio'r dogfennau olaf, anfoneb 4957	558.00
13/02/2026	Next Gen Plumbing	535.00
13/02/2026	Connor Thomas, cloeon a Bwrdd y Cadeiryddion	156.00
13/02/2026	Connor Thomas, Drysau toiled, colfachau drysau a chloeon	473.94
13/02/2026	Treuliau D. S. Nicholas, Vodafone 8 mis	210.89
13/02/2026	Treuliau D. S. Nicholas, Teithio 6 mis	331.43
16/02/2026	Cyflog D. S. Nicholas, Chwefror 2026	2457.72
16/02/2026	Cyflog S. Taylor, Chwefror 2026	920.04
18/02/2026	Cymdeithas Clercod Llywodraeth leol, Aelodaeth Blynyddol, anfoneb 256965-1	379.00
18/02/2026	BT, Ionawr/Chwefror 2026, anfoneb M042 E0	61.02
18/02/2026	Mike Pugh, arwyddion i Wifrau Sip Saron, Penygroes a'r Blaenau	588.00

Taliadau am anfonebau a dderbyniwyd ar Chwefror 18fed, 2026.

- Cyngor Sir Caerfyrddin, taliad cytundeb chwarterol Cynnal a Chadw'r Tiroedd: £9,134.18 gan gynnwys TAW
- Wicksteed, Ceblffordd/Gwifren Sip, Rowndabowt Parc Saron: £24,330 gan gynnwys TAW
- Connor Thomas, £604.04, drws mewnol newydd ac atgyweiriadau yn Nhoiled Penygroes.

Diweddariad ynghylch hawlio TAW:
Bydd yr hawliad TAW ar ddiwedd Chwefror yn cael ei hawlio yn ystod y flwyddyn ariannol hon ac, yn amodol ar yr anfonebau sydd mewn llaw ac i'w cyflwyno, yn gyfanswm o tua £12,800.
Bydd hyn yn cael ei dderbyn yn ystod y flwyddyn gyfrifo hon.

Cyngor Cymuned Llandybie Community Council	
Mantolen 2025-2026 / Accounts from April 1st	
Paratowyd gan - D Nicholas	
Y flwyddyn ariannol a ddaw i ben ar 31/04/2026	
BALANS Y CYFRIFON	
	£
Dygwyd Ymlaen (balans cychwynnol yn y Banc)	**£244,691.25**
Ychwanegu incwm yn ystod y flwyddyn	**£249,389.83**
Cyfanswm	**£494,081.08**

Cadeirydd

Llai y gwariant					**£274,005.30**
Balans wrth gau'r Daenlen Gyllid					**£220,075.78**
(derbyniadau - taliadau)					
Taliadau/ sieciau na's cyflwynwyd					£0.00
GWIR FALANS Y DATGANIAD					**£220,075.78**

Roedd y Clerc am i'r taliadau mwy sylweddol a dderbyniwyd yn ystod y Flwyddyn Ariannol gael eu cydnabod, ac am dderbyn cytundeb y byddant yn cael eu defnyddio fel cymorth yn lle taliad grant o £18,443, sef yr arian Adran 106 sydd i'w geisio amdano, a'r hawliad TAW o tua £12,800 sydd i'w hawlio ym mis Mawrth.

Penderfynwyd derbyn yr Adroddiad Ariannol a chytuno bod y taliadau yn cael eu gwneud.

(ii) Diweddariad ynghylch yr Archwiliad Mewnol a'r Archwiliad Allanol, 2025/26

Roedd y Clerc wedi cadarhau bod y paratoadau ar gyfer yr Archwiliadau Mewnol ac Allanol am y flwyddyn 2025-26 eisoes ar y gweill, a dim ond dau fis o waith cysoni sydd yn weddill cyn cwblhau'r cyfrifon. Bydd yn cysylltu â'r Archwilydd Mewnol yn ystod yr wythnos nesaf er mwyn trefnu amserlen cwblhau'r gwaith.

907.

Cyllid Adran 106.

Ni dderbyniwyd unrhyw ddiweddariad oddiwrth y Cynghorwyr Sir a oedd yn bresennol.

908.

Ceisiadau ynghylch Seminarau / Cyfarfodydd ar y Cyd

Dywedodd y Cadeirydd, y Cyng Julian Tandy, wrth y Cynghorwyr ei fod wedi mynychu un o'r digwyddiadau Coed Lleol, ac roedd yr Is-Gadeirydd, y Cyng A. J. Evans, wedi mynychu noson Dathlu Penblwydd 50 Dawnswyr Penrhyd yn Ysgol Dyffryn Aman, ac roedd y profiad wedi bod yn un dymunol iawn. Roedd y Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd ill dau wedi mynychu'r Hyfforddiant Net Sero, ac wedi ei gael yn fuddiol iawn.

909.

Dyddiad y Cyfarfod nesaf

Penderfynodd yr Aelodau y dylid cynnal Cyfarfod Cyffredin nesaf y Cyngor ar ddydd Mercher, Mawrth 25ain, 2026, a chyfarfod o'r Pwyllgor Polisi a Chyflogaeth ar Fawrth 11eg, 2026.

_____

Cadeirydd

910.

Gan nad oedd unrhyw fusnes pellach i'w drafod, daeth y Cadeirydd â'r cyfarfod i ben am 7.19 yh.

Cadeirydd